Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Heol Colcot
Y Barri
CF62 8YU

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ysgol ddynodedig Gymraeg, a gaiff ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Fe unodd Ysgol Gyfun Bro Morgannwg gydag Ysgol Nant Talwg ym Medi 2015 i greu ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion o 3 mlwydd oed hyd at 19 mlwydd oed. Mae ganddi 1,120 o ddisgyblion yn gyfan gwbl, 238 disgybl ym Mlynyddoedd 1 – 6 ac 882 ym Mlynyddoedd 7 – 13. Mae 128 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Lleolir yr ysgol yn nhref y Barri. Daw'r disgyblion o ardal eang yn cynnwys y Barri Gwenfo, Rhws, Penarth, Sili, Dinas Powys, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Sain Tathan. Mae disgyblion o ysgolion cynradd eraill y dalgylch yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym Mlwyddyn 7.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn ac mae 7.3% ohonynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 39% yn siarad Cymraeg gartref ond mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae gan 13% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig ac mae'r ganran sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn llai na 1%. Mae'r ddau ffigwr hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

Penodwyd y pennaeth ym mis Ionawr 2016. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a dysgu proffesiynol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn wedi sicrhau ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn ymysg disgyblion a staff Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol, ofalgar a Chymreig. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn wych, yn dangos agweddau rhagorol at eu gwaith ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae'r gofal ac arweiniad arbennig y mae'r ysgol yn eu darparu yn cyd-fynd yn llwyr ag arwyddair yr ysgol, sef "Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd".

Mae'r berthynas gadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion yn nodwedd eithriadol. Mae hyn yn llwyddo i greu awyrgylch diogel i ddisgyblion drafod, mentro, gwneud camgymeriadau a dysgu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth.

Maes arolygu	Barn
Safonau	**Da**
Lles ac agweddau at ddysgu	**Rhagorol**
Addysgu a phrofiadau dysgu	**Da**
Gofal, cymorth ac arweiniad	**Rhagorol**
Arweinyddiaeth a rheolaeth	**Da**

Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Sicrhau bod disgyblion yn yr adran uwchradd yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathebu ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella prosesau monitro a hunanwerthuso yr ysgol gan sicrhau bod arweinwyr yn arfarnu darpariaeth yn sgil ei heffaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

A4 Mynd i'r afael â'r ddyled ariannol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag agweddau disgyblion at ddysgu a Chymeictod, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u dealltwriaeth. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus ac mae llawer yn ei gymhwyso'n effeithiol i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, yn eu gwersi cerddoriaeth, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn cysylltu geirfa ac ymadroddion a ddysgwyd mewn gwersi drama megis 'osgo', 'ystum' a 'chymeriad' yn fedrus wrth ystyried eu cyfansoddiadau. Mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 gymharu arddull arweinyddiaeth ormesol Hitler ag arddull arweinyddiaeth emosiynol Churchill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael y Gymraeg yn gynnar ar ôl dechrau yn yr ysgol. Yn ystod y cyfnod sylfaen, maent yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn eu medrau llafar. Er enghraifft, maent yn defnyddio mynegiant clir ac yn amrywio tôn eu llais yn effeithiol wrth gynnal cyfweliadau gyda llygaid dyst ar gyfer bwletin newyddion. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafar eithriadol o dda yn y ddwy iaith.

Yn yr adran uwchradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro a'u cyfoedion. Mae llawer yn awyddus i gyfrannu ar lafar i drafodaethau dosbarth, grŵp a phâr. Mae gan y disgyblion hyn iaith o safon uchel yn y Gymraeg a Saesneg, ac maent yn cyfleu eu safbwyntiau yn hyderus ac yn aeddfed. Enghraifft o hyn yw disgyblion, yn eu gwersi hanes, yn trafod a dod i gasgliadau rhesymegol i benderfynu os oedd John F. Kennedy yn arlywydd cryf a dewr. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn aeddfed ac yn addasu eu hiaith yn fedrus yn dibynnu ar y gynulleidfa.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn mwynhau darllen ac yn trafod eu storïau a'u gwaith gyda brwdfrydedd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn dadansoddi testunau ac yn crynhoi gwybodaeth yn hynod lwyddiannus, er enghraifft wrth drafod materion cyfoes o'r newyddion. Yn yr adran uwchradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen er mwyn cywain gwybodaeth a dod i gasgliadau synhwyrol. Mae llawer yn defnyddio'u huwch fedrau darllen megis cymharu, crynhoi a dadansoddi yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion y chweched dosbarth yn dreiddgar ac yn fedrus yn eu dehongliad o dechnegau wrth iddynt drafod a yw 'A Streetcar Named Desire' yn drasiedi traddodiadol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus; er enghraifft, yn y derbyn, mae disgyblion yn defnyddio geiriau syml i ddisgrifio llun artist. Maent yn adeiladu ar eu medrau yn gadarn ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu i safon uchel mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn cynhyrchu darnau sy'n llwyddo i ennyn a chynnal diddordeb y darllenydd , er enghraifft wrth ysgrifennu am brofiadau plentyndod faciwîs yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn yr adran uwchradd yn ysgrifennu darnau estynedig yn effeithiol ac mewn amrywiaeth o ffurfiau fel pan fydd disgyblion Blwyddyn 9 yn ysgrifennu adroddiad ffeithiol ar lifogydd Dhaka ym Mangladesh yn eu gwersi daearyddiaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynulleidfa a chywair. Meddant ar eirfa eang a hynny yn y Gymraeg, Saesneg a'r ieithoedd tramor y maent yn eu hastudio. Mae gan leiafrif o ddisgyblion eirfa goeth, soffistigedig ac mae gan ychydig o ddisgyblion ddawn ysgrifennu a chreadigrwydd arbennig. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o gynulleidfa. Mae lleiafrif, gan gynnwys disgyblion galluog, yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg cyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio'u medrau yn llwyddiannus wrth bwyso gwahanol fwydydd yn yr ardal fathemateg. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio graddfa'n gywir wrth gyfrifo pellter rhwng gwahanol gymalau o'r Tour de France.

Mae gan lawer o ddisgyblion yr uwchradd afael gref ar gysyniadau rhif a mesur. Maent yn cyfrifo a thrin hafaliadau'n gywir, er enghraifft wrth gyfrifo'r tymheredd, cyfaint a gwasgedd yn eu gwersi ffiseg. Mae llawer yn defnyddio eu medrau rhif yn llwyddiannus i ddatrys problemau bywyd bob dydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cyfrifo elw a cholled yn hyderus wrth werthu cynnyrch. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau trin data yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr adran gynradd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechen yn fedrus i recordio fideos gan wirio eu cynnwys i sicrhau eu bod yn siarad yn glir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn creu cronfa ddata yn llwyddiannus er mwyn crynhoi a dadansoddi gwybodaeth y maent yn ei darganfod ar y we.

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yr adran uwchradd yn datblygu'u medrau TGCh yn ddigon da ar draws y cwricwlwm, yn enwedig uwch fedrau rhaglennu, defnyddio taenlenni a chynhyrchu cronfeydd data.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau meddwl. Ym Mlwyddyn 3 mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl wrth ddatrys problemau rhifiadol i gyfrifo sawl cwch sydd ei angen i lanhau llygredd olew ar y môr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 10 yn creu darnau o waith celf o safon uchel ar y thema 'Ar Lan y Môr' wrth efelychu gwaith artistiaid fel Alfred Morris ac Alison Moger, ac yna addasu'r technegau maent wedi eu dysgu i waith ar themâu eraill.

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da yn eu medrau corfforol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau mudol mân cadarn wrth dorri allan siapiau ac wrth greu siapiau 2 a 3 dimensiwn allan o wellt a chlai.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella yn y rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Yn 2018, mae perfformiad yr ysgol yn uwch na'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg mewn llawer o'r dangosyddion ac yn agos yn y gweddill.

Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a'r dangosydd lefel 2 sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn debyg yn fras i'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg dros y tair flynedd diwethaf. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill pum gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth yn agos i'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn a merched yn gyffredinol debyg i'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg ers 2016. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn amrywiol ond yn gyffredinol ychydig yn is na pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant.

Mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth yn gryf. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C, tair gradd A*-A ac yn y sgôr pwyntiau ehangach yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae lles ac agweddau at ddysgu disgyblion yr ysgol yn gryfder nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder eithriadol yn eu hysgol ac maent yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus. Mae gan bron pob un agweddau cadarnhaol iawn tuag at fywyd ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn gwerthfawrogi'n fawr bod yn rhan o gymuned Gymraeg agos a gofalgar.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel iawn o barch tuag at ddisgyblion eraill a staff. Maent yn hynod groesawgar gydag ymwelwyr ac yn rhyngweithio'n aeddfed ag oedolion. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o gwrtais ac ystyriol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae medrau cymdeithasol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod aeddfed.

Mae agwedd gadarnhaol bron pob disgybl at eu gwaith yn nodwedd arbennig. Dangosant chwilfrydedd amlwg a gwir fwynhad yn eu gwersi. Maent yn ddiwyd wrth ymgymryd â'u gwaith ac yn arddangos gwytnwch wrth wynebu heriau. Maent yn cynnal eu canolbwyntio ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn llwyddiannus iawn. Maent yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain gan ddangos medrau dysgu annibynnol cryf iawn.

Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae'r rhan fwyaf yn ffyddiog y bydd yr ysgol yn ymateb i'w pryderon. Yn gyffredinol, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd a'r angen i ddiogelu gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio cyfrineiriau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwd yn yr ystod arbennig o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol a gynigir, gan gynnwys gweithgareddau cerddorol a chlybiau perfformio. Mae ymroddiad y disgyblion i'r gweithgareddau hyn a'u dyhead i ragori yn eu perfformiadau yn nodwedd arbennig.

Mae bron pob disgybl yn deall yn glir bwysigrwydd bwyta a chadw'n iach. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n eithriadol mewn ystod eang iawn o weithgareddau, er enghraifft mewn sesiynau addysg gorfforol rheolaidd ac wrth gystadlu yn erbyn ysgolion eraill. Mae mwyafrif y disgyblion cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon allgyrsiol, gan gynnwys sesiynau ffitrwydd cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau. Yn yr adran gynradd, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y sesiynau cerdded dyddiol 'Nerth Ein Traed'. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu eu ffitrwydd yn effeithiol iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Maent yn cyfrannu'n ardderchog at fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r cabinet a chyngor ysgol. Mae llawer o grwpiau eraill fel y cyngor eco, cyngor Cymreictod, mentoriaid iaith a'r 'dewiniaid digidol', hefyd yn cyfrannu'n werthfawr at waith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yr adran gynradd wedi rhoi mewnbwn wrth ddewis y thema ar gyfer prosiectau gwaith a sut maent am gyfrannu at y gymuned. Nodwedd eithriadol yw'r pwyllgor Cymreictod sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn wrth hybu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol. Maent yn trefnu 'gigs' yn yr ysgol ac mae'r llysgenhadon iaith yn gweithio'n agos gyda disgyblion iau i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg fel ffordd o fyw. Mae disgyblion hŷn yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn gweithio fel modelau rôl aeddfed wrth gefnogi disgyblion iau gyda gweithgareddau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud penderfyniadau pwrpasol mewn perthynas â'u dysgu. Er enghraifft, oherwydd barnau disgyblion, trefnwyd sesiwn hyfforddi i staff ar sut i roi adborth effeithiol. O ganlyniad, mae'n ffocws penodol i'r ysgol ddatblygu o ran dysgu ac addysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n eithriadol fel dinasyddion moesegol a goddefgar. Mae llawer yn weithgar ac yn greadigol wrth drefnu ystod eang o weithgareddau i gefnogi amrywiaeth helaeth o elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal ras arbennig yn ystod diwrnod mabolgampau lle mae bron pob disgybl ac aelod o staff yn cymryd rhan i godi arian at elusen cancr lleol sy'n creu cysylltiad agos a buddiol rhwng yr ysgol a'r elusen.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r berthynas gadarnhaol a chynhyrchiol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel am ymddygiad ac maent yn creu awyrgylch ddiogel i ddisgyblion drafod, mentro a dysgu o'u camgymeriadau. Maent yn fodelau iaith effeithiol sydd yn cywiro iaith y disgyblion mewn modd grefftus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gywirdeb a safon uchel iaith lafar y disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn frwdfrydig am y meysydd y maent yn eu dysgu. Mae hyn, ynghyd â'r amrywiaeth eang o brofiadau y maent yn eu darparu, yn helpu i sicrhau bod gan y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Mae llawer yn cynllunio gwersi yn ofalus i gynnwys gweithgareddau sydd yn cynnig her addas a chyfleodd gwerthfawr i ddisgyblion feddwl yn ddwfn. Yn y sesiynau hyn, mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion ac eraill lle mae'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol neu mewn grwpiau i atgyfnerthu'u dysgu. Mae llawer o athrawon yn defnyddio adnoddau deniadol a diddorol sydd yn llwyddo i

ddenu diddordeb y disgyblion. Maent yn gyfathrebwyr effeithiol sydd yn esbonio cysyniadau neu ofynion tasgau yn glir. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o ddisgyblion yn fedrus i fonitro cynnydd yn agos, gan ymyrryd yn bwrpasol lle bo'r angen.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r athrawon yn defnyddio'u harbenigedd pwnc yn hynod fedrus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn ac i ysgogi eu gwir ddiddordeb. Maent yn cynllunio cyfres o weithgareddau strwythuredig sydd yn datblygu dealltwriaeth ac annibyniaeth disgyblion yn hynod lwyddiannus. Maent yn cynyddu'r her yn fedrus pan fo disgyblion yn barod i gael eu hymestyn ymhellach.

Mewn ychydig o achosion, nid yw'r addysgu yn llwyddo i sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Yn yr achosion hyn, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod lefel yr her yn addas ar gyfer gallu'r disgyblion, neu nid ydynt yn adeiladu dealltwriaeth disgyblion ar sail eu gwybodaeth flaenorol yn ddigon da. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw athrawon yn cywiro camsyniadau disgyblion yn ddigon amserol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ar waith ac ymdrech disgyblion. Mae llawer yn holi disgyblion yn effeithiol er mwyn profi eu gwybodaeth. Er hyn, dim ond mewn lleiafrif o achosion mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig pwrpasol ar waith disgyblion sydd yn caniatáu iddynt wybod sut i wella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon penodol i ganiatáu disgyblion i wybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys o'r cyfnod sylfaen i'r chweched dosbarth. Mae gan staff yr adran gynradd ymwybyddiaeth gadarn iawn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau newydd yn gyson ar draws yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau mudol mân drwy godi peli bach o'r twb dŵr gydag amrywiaeth o offer. Mae'r grwpiau dysgu yng nghyfnod allweddol 3 wedi eu strwythuro'n effeithiol i roi cynhaliaeth i'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn cael eu hymestyn a'u mentora yn fedrus i sicrhau eu cynnydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 8 a 9 mwy abl mewn mathemateg yn cael sesiynau ymestyn ychwanegol.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth dda o bynciau dewis i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, ac yn addasu'r cwricwlwm yn fwriadus i gwrdd ag anghenion amrywiaeth o ddisgyblion. Mae disgyblion yn cael cyngor ac arweiniad cynhwysfawr wrth ddewis eu pynciau.

Fel ysgol arloesi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, mae'r athrawon yn hyderus i arbrofi wrth gynllunio a threialu gweithgareddau a phrofiadau dysgu newydd. Mae prosiectau thematig fel y gwaith Patagonia ym Mlwyddyn 5 a 6 a Fi, Fy Mro, Fy Myd ym Mlwyddyn 7 yn plethu profiadau sy'n datblygu gwahanol fedrau yn grefftus.

Mae'r ysgol yn sicrhau dilyniant effeithiol i'r cwricwlwm rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 o fewn yr ysgol ei hun a thrwy drefniadau pontio cadarn gydag ysgolion cynradd eraill y dalgylch. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd ddaw yn sgil bod yn ysgol pob oed wrth ddatblygu'r cwricwlwm, er enghraifft trwy rannu arbenigedd ac adnoddau.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n drwyadl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn drawsgwricwlaidd trwy'r holl ystod oedran. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cynllun 'Llwyfan Llafar' sy'n cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau TGCh yn gynyddol yn yr adran gynradd. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn ffilmio eu hunain yn annibynnol wrth ddisgrifio blas gwahanol fwydydd. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn yr adran uwchradd yn ddigon cynhwysfawr.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd buddiol o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 3. Mae'r rhaglenni 'Mêts Maths', 'Menter Maths' a chynlluniau darllen dan ofal myfyrwyr y chweched dosbarth yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i ddisgyblion iau ddatblygu eu medrau.

Cynigir arlwy arbennig o gyfoethog o brofiadau allgyrsiol trwy amrywiol glybiau, ymweliadau i'r ardal leol a'r tu hwnt a phrofiadau chwaraeon. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys Clwb Dadlau o fewn yr adran Saesneg yn yr uwchradd a dewis helaeth o glybiau chwaraeon gan gynnwys cyfeiriannu, tenis bwrdd a chwaraeon tîm. Mae'r profiadau hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar les, Cymreictod a chymhelliant disgyblion ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn arbennig o dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymreictod yn greiddiol i holl waith yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod. Ceir amrywiaeth o weithgareddau sy'n datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliant a hanes Cymru, gan gynnwys astudio chwedlau a thaith flynyddol i ymweld â lleoedd pwysig yn hanes Cymru.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae sicrhau lles disgyblion wrth galon gwaith Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae pwyslais ar feithrin dinasyddion parchus, gofalgar a chyfrifol a darparu gofal a chefnogaeth o'r radd flaenaf yn treiddio trwy holl waith yr ysgol. Mae ymroddiad eithriadol y staff i gefnogi lles disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol at ymddygiad rhagorol bron bob un disgybl, eu hymarweddiad parchus a chroesawgar a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn eithriadol. Yn gyffredinol, mae gan staff yr ysgol adnabyddiaeth arbennig o ofynion y disgyblion. Mae'r ganolfan les a'r 'cwtsh' yn darparu hafan ddiogel sy'n cynnig arlwy gynhwysfawr o gefnogaeth megis medrau cymdeithasol, cynlluniau arbenigol a sesiynau mentora drwy anogwyr dysgu. Enghraifft nodedig yw'r rhaglen faeth sy'n cefnogi a datblygu disgyblion Blwyddyn 8 wrth iddynt fynd i'r afael â gofynion a heriau dyddiol. Mae sesiynau meddylgarwch llesol y ganolfan les yn helpu codi hyder a hunan-barch disgyblion. Yn ei gyfanrwydd, mae'r gefnogaeth gyson hon yn cynorthwyo'r disgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd ysgol a thu hwnt.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr i dracio cynnydd academaidd, a gwneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth i adnabod grwpiau targed gwahanol. Ceir systemau llwyddiannus i olrhain presenoldeb a lles disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r systemau hyn yn arbennig er mwyn adnabod a gweithredu ar ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni a gosod ymyraethau pwrpasol yn eu lle er mwyn mynd i'r afael â'u gofynion unigol. Mae gwaith effeithiol y swyddog presenoldeb a'r tîm bugeiliol wedi sicrhau presenoldeb cyson uchel dros amser. Mae'r ddarpariaeth les hynod gynhwysfawr, sy'n ystyried pob un disgybl, yn cynnwys gwaith gyda phartneriaethau ag ystod eang o asiantaethau allanol, fel defnydd pwrpasol o'r gwasanaethau lles ieuenctid, Gofalwyr Ifanc a "Bobbies on Call".

Mae trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig. Mae'r map darpariaeth yn gynhwysfawr ac mae'r cynlluniau addysg unigol yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cymorth teilwredig i gefnogi'r disgyblion hyn trwy ystod eang o ymyraethau. Mae'r ysgol yn monitro effaith y gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn agos ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei haddasu i anghenion y disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol gyda rhieni. Mae systemau cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod yr ysgol a rhieni yn cydweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi datblygiad academaidd a lles pob unigolyn. Mae adroddiadau interim a diwedd blwyddyn i rieni yn bersonol a chynhwysfawr ac yn cynnwys targedau gwella penodol defnyddiol. Mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth o safon uchel i rieni drwy gyfathrebu cyson ar bresenoldeb a thrwy gynnig sesiynau wythnosol agored i rieni drafod materion lles eu plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegianol y disgyblion a'u dealltwriaeth o ddiwylliant yn nodwedd eithriadol o waith yr ysgol. Mae arlwy eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, er enghraifft perfformiadau celfyddydol, digwyddiadau diwylliannol a pherfformiadau cerddorol eang fel y sioeau cerdd We Will Rock You a Les Miserables.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Cynigir amrediad eang iawn o weithgareddau corfforol, gan gynnwys clybiau cyn ac ar ôl ysgol, sy'n llwyddo i hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion a magu eu brwdfrydedd i gadw'n iach.

Darperir cyfleoedd gwerthfawr a niferus i ddisgyblion gyfrannu i weithgareddau o fewn y gymuned ac i godi arian at wahanol elusennau. Enghraifft nodedig yw'r cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion o gyfnod allweddol 2 ymweld ag ysbyty'r Barri i gymdeithasu â'r henoed ac addysgu medrau TGCh iddynt.

Mae cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion leisio barn, ysgwyddo cyfrifoldebau ac ymgymryd â rolau arweiniol. Er enghraifft, drwy gyfrwng y cabinet ysgol a fforymau amrywiol, mae disgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â rolau amrywiol sydd yn eu datblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol a chyfrifol. Maent yn cyfrannu'n hyderus at bolisïau fel y rhai gwrth-fwlio ac adborth ar waith.

Cefnogir datblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol disgyblion yn dda yn ystod cyfnodau bugeiliol gwerthfawr, sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol a

gwasanaethau torfol. Mae cyfraniadau pwysig nifer o siaradwyr allanol yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o ystod eang o faterion cymdeithasol a lles. Mae agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu datblygu'n fedrus gan yr ysgol. O ganlyniad i'r ddarpariaeth werthfawr hon, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion cyfrifol, goddefgar a pharchus.

Mae gan yr ysgol drefniadau trosglwyddo cadarn iawn er mwyn sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus drwy fentora pwrpasol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gweledigaeth y pennaeth wedi ei seilio'n gadarn ar genhadaeth o gydweithio medrus i greu cymuned ddysgu lwyddiannus a chynhwysol. Mae amcanion strategol yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru o fewn diwylliant Cymreig, yn cefnogi'r weledigaeth hon yn dda iawn. Mae ysbryd o gydweithio amlwg ymysg staff ac mae holl randdeiliaid yr ysgol yn cofleidio'r weledigaeth ac yn cyfleu balchder o fod yn aelodau o gymuned yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth gadarn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau pwysig o waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys safonau yn yr adran gynradd ac yng nghyfnod allweddol 5, presenoldeb ac agweddau cadarnhaol disgyblion, a'r ymdeimlad cryf o Gymreictod.

Mae gan yr uwch dîm arwain a'r uwch dîm arwain estynedig gyfrifoldebau penodol addas ac mae'r llinellau atebolrwydd yn glir. Maent yn gweithredu'n effeithlon i gefnogi'r pennaeth ac i osod cyfeiriad strategol cadarn i waith yr ysgol. Mae strwythur o gyfarfodydd cyson a rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd niferus hyn yn canolbwyntio'n glir ar safonau, addysgu a blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn frwdfrydig iawn ac yn cydweithio'n effeithiol gydag arweinwyr i osod cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gyffredinol, briodol o berfformiad yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i herio'r ysgol ac yn eu datblygu i fod yn ffrindiau beirniadol.

Mae gan arweinwyr ar bob lefel wybodaeth gynhwysfawr am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol o ddydd i ddydd a dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r mwyafrif o'r gwendidau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth ymysg y staff yn effeithiol er mwyn cymell gwelliant parhaus. Enghraifft o hyn yw'r cyfarfodydd rhannu arfer dda buddiol a drefnwyd ar ôl i athrawon yr ysgol arsylwi ei gilydd mewn triawdau. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr ddarlun digon clir a manwl o'r holl agweddau sydd angen eu gwella ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith. Er enghraifft, wrth arfarnu gwersi a chraffu ar lyfrau, nid ydynt yn rhoi sylw digonol i werthuso ansawdd y ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar safonau a medrau disgyblion. O ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer gwelliant ar lefel ysgol gyfan nac ar lefel adrannol bob amser yn ddigon miniog a phenodol.

Mae holl randdeiliaid yr ysgol yn cyfrannu at y broses o gasglu ystod briodol o dystiolaeth ddefnyddiol sydd yn bwydo prosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae pob aelod o staff ynghlwm wrth y trefniadau cynhwysfawr ar gyfer craffu ar lyfrau ac mae rhaglen briodol o arsylwadau gwersi a theithiau dysgu sydd yn cynnwys staff a llywodraethwyr. Mae fforymau buddiol ar gyfer casglu barnau rhieni a staff ac mae cyfleoedd amryfal i ddisgyblion leisio eu barnau ar faterion adrannol ac ysgol gyfan. Ceir enghreifftiau clir o farnau disgyblion yn dylanwadu ar benderfyniadau, er enghraifft newidiadau i brofion mewn mathemateg a chyflwyno hoci i'r bechgyn yn addysg gorfforol.

Mae gan y mwyafrif o arweinwyr ddealltwriaeth addas o arwyddocâd ystod o ddata perthnasol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth ddigon cadarn o ddata yn ei holl fanylder nac o berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae gan yr ysgol ethos cryf o gefnogi dysgu proffesiynol. Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar ddatblygu lles disgyblion i gynorthwywyr yn yr adran gynradd yn cael effaith gadarnhaol ar wella lles emosiynol disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion a sefydliadau addysg eraill er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Mae rhaglen datblygiad proffesiynol yr ysgol wedi'i seilio'n gadarn ar wella elfennau o addysgu. Mae cyfleoedd buddiol i athrawon weithio mewn triawdau wedi arwain at welliannau yn agweddau o'r addysgu. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn gyffredinol addas, yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol. Er hyn, mae diffyg yn y gyllideb ers dwy flynedd. Mae cynllun wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol i gael gwared ar y diffyg o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n addas a gwneir defnydd da o'r safle a'r adeiladau. Mae'r adeiladau ar y safle cynradd o safon arbennig o uchel. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grantiau. Mae'r defnydd o'r grant datblygu disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a lles yr ychydig ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim ond nid yw wedi cael digon o effaith ar eu safonau yng nghyfnod allweddol 4 dros amser.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019